

# Busnes Cymdeithasol Cymru

[/businesswales.gov.wales/socialbusinesswales/cy](https://businesswales.gov.wales/socialbusinesswales/cy)



Wales Co-operative Centre  
Canolfan Cydweithredol Cymru

Lleol, tecach, cryfach:

busnesau cymdeithasol yn creu twf yng Nghymru

03 | Astudiaeth achos: Bay Leisure Ltd.



Busnes | Business  
Cymru | Wales



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government



UNDEB EWROPEAIDD  
EUROPEAN UNION



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Cronfa Datblygu  
Rhanbarthol Ewrop  
European Regional  
Development Fund

# wavehill

social and economic research  
ymchwil cymdeithasol ac economaidd

Awduron: Eva Trier, Endaf Griffiths a  
Ioan Teifi, Wavehill Ltd

Comisiynwyd a chyhoeddwyd gan Busnes  
Cymdeithasol Cymru.

Ariennir Busnes Cymdeithasol Cymru gan  
Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a  
Llywodraeth Cymru. Fe'i darperir gan  
Ganolfan Cydweithredol Cymru fel rhan o  
wasanaeth Busnes Cymru.

Canolfan Cydweithredol Cymru  
Y Borth  
13 Ffordd Beddau  
Caerffili  
CF83 2AX

0300 111 5050  
info@wales.coop  
www.wales.coop

## Diolchiadau

Hoffem ddiolch hefyd i'r holl unigolion a  
roddodd o'u hamser i helpu gyda'r ymchwil a  
gynhaliwyd ar gyfer yr astudiaeth hon.

Hoffem ddiolch yn arbennig i Meirion Thomas o  
Penbryn Consulting a Keith Edwards o Keith  
Edwards Ltd. a gynigiodd eu myfyrdodau ar dwf  
busnesau cymdeithasol, gan ddefnyddio  
busnesau'r astudiaethau achos fel enghreifftiau.

Ni fyddai'r adroddiad hwn wedi bod yn bosibl  
heb yr holl gyfraniadau hyn.

Mae Canolfan Datblygu a Hyfforddi Cydweithredol Cymru  
Cyfyngedig (yn masnachu fel Canolfan Cydweithredol  
Cymru) yn gymdeithas gofrestredig o dan Ddeddf  
Cwmnïau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd  
Cymunedol 2014, rhif 24287 R.

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg.  
Ni fydd oedi os byddwch yn gohebu â ni yn Gymraeg.

## 03 | ASTUDIAETH ACHOS Bay Leisure Ltd.

### Lleoliad y busnes

Abertawe  
SA1 3ST

### Prif weithgarwch y busnes

Cynnal prif ganolfan hamdden yr awdurdod lleol, lleoliadau campfeydd cost isel a Chanolfan Chwaraeon Traeth a Dŵr 360 ym Mae Abertawe.

### Maint y busnes

150 o staff.  
Trosiant o dros £3 miliwn y flwyddyn.

Cafodd Bay Leisure Ltd. (BLL) ei sefydlu yn 2007 fel Cwmni Cyfyngedig trwy Warant i ddarparu Canolfan Hamdden Abertawe, a oedd newydd gael ei hailadeiladu, ar ran Cyngor Dinas Abertawe.

Roedd arfarniad o opsiynau a gynhaliwyd gyda chymorth ymgynghorydd allanol ar y pryd wedi dod i'r casgliad mai cwmni hyd braich cwbl annibynnol newydd fyddai orau ar gyfer cyflawni'r cynlluniau uchelgeisiol ar gyfer y ganolfan hamdden. Felly, sefydlwyd BLL gyda chymorth gan y Cyngor, a chafodd tîm staff proffesiynol ei recriwtio a'i gontractio i ailagor a gweithredu'r ganolfan hamdden ar brydles o 10 mlynedd, gan gynnwys gwaith atgyweirio a chynnal a chadw o ddydd i ddydd.



## 03 | ASTUDIAETH ACHOS Bay Leisure Ltd.

Pan sylweddolodd BLL na allai'r busnes fod yn ddibynnol ar ffi reoli'r ganolfan hamdden yn unig, aeth ati i sefydlu'r gadwyn Simply Gym. Roedd hyn yn seiliedig ar y gydnabyddiaeth bod y farchnad mewn perthynas â champfeydd cost isel yn tyfu ac y byddai'n cyrraedd Abertawe yn hwyr neu'n hwyrach, gan effeithio ar gyfran BLL o'r farchnad. Felly, penderfynwyd lansio menter campfeydd cost isel ar wahân mewn lleoliadau ychwanegol cyn i gadwyni eraill symud i'r ardal.

Felly, sefydlwyd lleoliadau Simply Gym yn Llansamlet ac yna Gorseinon. Yn ogystal, sefydlwyd Simply Play yng Ngorseinon fel cynnig pellach i'r gymuned.

Ochr yn ochr â sefydlu Simply Gym, datblygwyd Canolfan Chwaraeon Traeth a Dŵr 360 mewn partneriaeth â Phrifysgol Abertawe. Mae'n rhan o brosiect Croeso Cymru gwerth miliynau o bunnoedd a lansiwyd ym mis Hydref 2012 gyda'r nod o wneud Bae Abertawe yn Ganolfan Rhagoriaeth Chwaraeon Dŵr.

### Proffil y bobl

Mae BLL yn cyflogi 150 o staff, gyda 50 ohonynt yn gweithio'n llawn amser. Yr her i BLL yw dod o hyd i staff â'r priodweddau iawn – nid yw hyn yn golygu'r un fath â lefelau addysgol bob amser. Mae angen i bobl allu canolbwyntio ar wasanaethau cwsmeriaid. Mae'r cwmni'n gweithio gydag Ymddiriedolaeth y Tywysog i gynnal cyfleoedd i'w hyfforddeion. Ar ddiwedd cwrs hyfforddi achubwyr bywydau Ymddiriedolaeth y Tywysog, er enghraifft, mae BLL yn cynnig cyfweiliad i bob hyfforddai ac mae wedi cyflogi llawer ohonynt. Y fantais i Ymddiriedolaeth y Tywysog yw ei bod yn gallu dangos bod llawer o'i hyfforddeion yn llwyddo i ddod o hyd i gyflogaeth ar ôl gweithio gyda'r Ymddiriedolaeth.

Mae ethos gwasanaeth cyhoeddus yn rhan annatod o ddiwylliant BLL. O ganlyniad, yn ogystal â Chanolfan Chwaraeon Traeth a Dŵr 360 yn darparu amryw o weithgareddau nad ydynt yn canolbwyntio ar elw (ac sy'n cael eu trawsgymorthdal gan yr ochr bwyd a diod), mae'r lleoliadau Simply Gym yn gweithredu o fewn y cylch

gorchwyl diwyllianol hwn. Mae hyn yn amlygu ei hun yn lefel y gwasanaeth sydd ar gael ac yn y ffordd mae BLL yn gweithio, er enghraifft, mae'n disgwyl staff i gyflawni gwaith elusennol.

Mae gan Bay Leisure Ltd fwrdd o 11 o gyfarwyddwyr gwirfoddol anweithredol sy'n cynnwys dau Gyfarwyddwr a benodwyd gan y Cyngor a gweithwyr proffesiynol lleol o wahanol sectorau busnes.

### Proffil ariannol

Roedd y buddsoddiad cychwynnol o £32 miliwn a wnaed trwy ERDF o dan arweiniad Cyngor Dinas Abertawe yn y ganolfan hamdden newydd a'r buddsoddiad o £1.4 miliwn trwy Croeso Cymru yng Nghanolfan Chwaraeon Traeth a Dŵr 360 yn allweddol i greu BLL fel busnes hyfyw. Roedd grant cychwynnol gan y Cyngor yn ddigon i dalu'r costau cyn agor cyn y gallai'r ganolfan hamdden ddechrau gweithredu'n llawn. Nid oes gan y Cyngor unrhyw gyfranddaliadau uniongyrchol, ac mae ei fudd ariannol yn y cwmni wedi'i gyfyngu i warant o £1.



Mae BLL wedi buddsoddi symiau mawr o'i arian ei hun yn y busnes ac mae wrthi'n datblygu'r gweithgareddau ychwanegol yn gwbl annibynnol. Ar ben hynny, mae ffi reoli'r awdurdod lleol wedi gostwng yn sylweddol fel bod BLL yn darparu arbedion sylweddol iddynt. Cafodd targedau arbedion eu cynnwys yn y brydles o'r cychwyn, gan gydnabod y pwysau ariannol mawr a oedd ar yr awdurdod lleol. Cafodd y penderfyniad i sefydlu Bay Leisure fel cwmni hyd braich ar wahân ei sbarduno gan fanteision ariannol ychwanegol, megis gallu adennill unrhyw TAW.

Gyda throsiant ymhell dros £3 miliwn, nid yw BLL wedi defnyddio unrhyw gyllid masnachol hyd yma; yn hytrach, canolbwyntiodd ar lunio cynnig buddsoddi deniadol, gan dynnu ar arbenigedd y tîm, yr hanes masnachu cadarn a'r rhagolygon masnachol.

### Trywydd y twf ac effaith ar y gymuned

Mae twf yn rhan o gynllun strategol BLL, ond mae'n defnyddio safbwynt tymor hir; yn hytrach na chynyddu cyfanswm y gweithgareddau, mae'n gofalu ei fod yn mynd ar gyflymder y gall y busnes ei gefnogi.

Cafodd Simply Gym, Simply Play a Chanolfan Chwaraeon Traeth a Dŵr 360 eu cynllunio i arallgyfeirio'r gweithgareddau busnes a chyfyngu ar y risgiau o fod yn ddibynnol ar gcontract y ganolfan hamdden gyda'r awdurdod lleol. Cafodd lleoliad Simply Gym Cwibrân yn enwedig ei ddatblygu mewn ymateb uniongyrchol i'r ansicrwydd ynglŷn â'r tendr newydd ar gyfer contract y ganolfan hamdden, ynghyd â'r cadwyni cenedlaethol eraill sy'n dod i Gymru.

Mae gan bob un o'r pedwar llinyn fodel busnes gwahanol, ond maen nhw i gyd yn darparu gweithgareddau iechyd a ffitrwydd ar raddfa fawr. Felly,

mae yna orgyffwrdd gweithredol sydd hefyd yn cynnwys darpariaeth bwyd a diod ym mhob un o bedair rhan y busnes.

Gellir priodoli llwyddiant y busnes i'r lefel uchel o arbenigedd ym maes rheoli hamdden a'r dull masnachol, gan gynnwys gwneud elw ar fwyd a diod. Roedd hyn ond yn bosibl gan na chafodd BLL ei greu fel cwmni deillio o'r awdurdod lleol, a bu modd iddo sefydlu ei fodel busnes ei hun a'i ddiwylliant cwmni ei hun o'r newydd.

Simply Gym yw'r prif ffocws ar gyfer strategaeth twf BLL. Mae'r tîm yn chwilio am safleoedd newydd byth a beunydd. Y ffactor cyfyngu allweddol ar gyfer BLL yw costau cyflog – dim ond trwy gadw llygad ar gost gyffredinol y gyflogres y gellir sicrhau twf. Mae angen cydbwysedd i sicrhau bod y bobl iawn yn cael eu recriwtio sy'n gallu darparu ansawdd a chynhyrchu'r incwm ychwanegol sydd ei angen.

Gyda throsiant ymhell dros £3 miliwn, nid yw BLL wedi defnyddio unrhyw gyllid masnachol hyd yma; yn hytrach, canolbwyntiodd ar lunio cynnig buddsoddi deniadol.

## 03 | ASTUDIAETH ACHOS

# Bay Leisure Ltd.

O ran manteision twf BLL, mae'r holl weithgareddau wedi'u cynllunio i sicrhau bod y gymuned yn gallu cael mynediad at weithgareddau corfforol. Datblygwyd Canolfan Chwaraeon Traeth a Dŵr 360, er enghraifft, er mwyn sicrhau bod aelodau'r gymuned yn gallu cael mynediad at gamp a ystyrir yn aml fel un 'coler wen'. Mae'r ganolfan, a weithredir gan Bay Sports Limited, sef cwmni dielw sy'n eiddo i Brifysgol Abertawe a BLL Limited, yn sicrhau bod y gweithgareddau hyn ar gael am bris is nag o'r blaen.

Yn ogystal, mae gweithgareddau allgymorth ac ymgysylltu yn rhan o'r cynllun. Yn 360, er enghraifft, mae cynyddu cyfranogiad yng Nghanolfan Rhagoriaeth Chwaraeon Dŵr Bae Abertawe yn amcan allweddol. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, mynd â grwpiau ysgol i'r traeth neu dywys grwpiau cerdded am ddim.

Yn yr un modd, nododd BLL gyfle i ddod â'r 'Park Run' i Fae Abertawe, a buddsoddodd £3,000 o'i arian ei hun i

helpu i wireddu hyn. Erbyn hyn, mae'n cael ei ddarparu trwy wirfoddolwyr gyda chefnogaeth staff rheoli'r cwmni, ac mae'n weithgarwch gwych i bobl lleol ac yn denu ymwelwyr pellach i'r Bae a fydd efallai'n dychwelyd yn y dyfodol.

Mae ethos gwasanaeth cyhoeddus yn rhan o DNA y cwmni ac yn rhan annatod o'r cytundeb rheoli gyda'r awdurdod lleol. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, elfennau megis pris gostyngol/consesiynau i bobl ddi-waith, ymrwymiad i fod ar agor drwy'r dydd, bob dydd a gweithgareddau megis allgymorth i ysgolion nad ydynt yn cynnig unrhyw enillion masnachol. Mae hyn yn cael ei reoli trwy dargedau y cytunwyd arnynt gyda'r awdurdod lleol, ond y ddisgyblaeth fasnachol sy'n galluogi BLL i sicrhau'r gwerth gorau mewn ffordd gynaliadwy. Ar yr un pryd, gall BLL ymddwyn yn wahanol i fusnes sy'n eiddo i gyfranddalwyr a buddsoddi'r holl arian sydd dros ben yn ôl yn y busnes.

### Safle cystadleuol

Mae safle cystadleuol BLL yn amrywio ar draws y gwahanol rannau o'r busnes. Mae'r contract rheoli ar gyfer y ganolfan hamdden, sy'n cynrychioli cyfran fawr o drosiant y cwmni, wrthi'n cael ei ail-dendro gan yr awdurdod lleol. Er y byddai BLL yn gallu parhau i fasnachu heb y ganolfan hamdden, byddai effaith peidio â sicrhau'r contract newydd yn sylweddol. Nid yw'r ganolfan hamdden yn broffidiol ynddi'i hun, ond mae darparu'r ganolfan hamdden ar gyfer yr awdurdod lleol yn hwb mawr i'w enw da.

Ar gyfer ei weithgarwch Simply Gym, mae BLL wedi mabwysiadu strategaeth ar gyfer nodi'n rhagweithiol leoliadau newydd â galw cudd h.y. y ddemograffeg iawn a lle nad oes campfa arall yn cynnig darpariaeth debyg am bris sy'n cyfateb i incwm gwario yn yr ardal. Llansamlet oedd yr ardal gyntaf i gael ei nodi ar y sail honno, gyda Gorseinon a Chwmbwrân i ddilyn. Cafodd y strategaeth hon ei dewis dros strategaeth fwy cystadleuol o herio darparwyr sydd eisoes mewn ardal.

Mae ethos gwasanaeth cyhoeddus yn rhan o DNA y cwmni ac yn rhan annatod o'r cytundeb rheoli gyda'r awdurdod lleol.

Wrth gwrs, nid yw'r strategaeth o nodi galw cudd wedi atal cadwyni o gampfeydd cost isel eraill rhag symud i mewn i'r farchnad leol. Mae hyn wedi creu cystadleuaeth ar gyfer y ganolfan hamdden a darpariaeth bresennol Simply Gym, ynghyd ag ar gyfer BLL fel darparwr contract y ganolfan hamdden ar gyfer y cyngor. Hyd yma, mae gweithrediadau'r ganolfan hamdden a Simply Gym wedi gallu dal eu tir, ond mae'n rhaid i BLL weithio mewn amgylchedd hynod gystadleuol.

Un elfen allweddol o barhau i fod yn gystadleuol yw parhau i gyflawni pwynt gwerthu unigryw'r cwmni. Mae hyn yn golygu, er enghraifft, nad yw'r ffaith bod tîm y gampfa ar ddyletswydd bob amser yn ddigon; mae hefyd angen i bobl brofi a gwerthfawrogi eu presenoldeb ac mae angen i gwsmeriaid deimlo'r effaith. Hyd yn oed bryd hynny, fodd bynnag, mae sbarduno strategaeth

sy'n seiliedig ar ansawdd yn hytrach na phris yn dal i fod yn anodd mewn ardal lle mae pris yn ystyriaeth bwysig iawn.

Mae mabwysiadu meddylfryd masnachol a sicrhau hyfywedd y busnes yn rhagofyniad hollbwysig i ddod yn fusnes cryf sy'n canolbwyntio ar y gymuned ac i feithrin partneriaethau cryf. O ran marchnata, mae'r ffaith bod BLL yn fusnes dielw yn ychwanegyn digon braf yn hytrach na bod yn agwedd sy'n darbwyllo aelodau i ymuno.

### Ymwneud â'r economi leol

Mae'r ganolfan hamdden a Chanolfan Chwaraeon Traeth a Dŵr 360 yn gwneud cyfraniad sylweddol at yr economi leol. Mae'r ganolfan hamdden yn atyniad sy'n denu 800,000 o bobl y flwyddyn, gan gyflwyno manteision sylweddol i'r ardal leol.

Datblygwyd Canolfan Chwaraeon Traeth a Dŵr 360 fel rhan o weledigaeth ehangach i hyrwyddo Bae Abertawe fel canolfan ragoriaeth ar gyfer chwaraeon dŵr, gyda phrosiectau'n ymestyn o Borthcawl i'r Mwmbwls ac yn cael eu hariannu gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, Croeso Cymru a rhaglen yr Ardal Adfywio. Mae'r Ganolfan yn cyfrannu hefyd at annog ymwelwyr i aros ym Mae Abertawe yn hytrach nag yn rhywle arall. Mae denu ymwelwyr fel hyn yn cael llawer o effeithiau canlyniadol, o effeithiau ar barcio a chadwyni cyflenwi o ganlyniad i BLL yn prynu bwyd, cyfarpar ac ati i greu gorsaf RNLI newydd mewn ymateb i'r cynnydd yn niferoedd yr ymwelwyr.

Mae Canolfan Chwaraeon Traeth a Dŵr 360 yn gweithio mewn partneriaeth â busnesau chwaraeon dŵr eraill yn yr ardal i gynnig pob math o chwaraeon i unigolion o bob gallu, gan gynnwys hwylfyrdio, caiacio, syrffio barcud, nofio mewn dŵr agored a padlfyrdio.



## 03 | ASTUDIAETH ACHOS Bay Leisure Ltd.

Mae BLL yn cymhwyso disgyblaethau masnachol mewn perthynas â'i weithgareddau prynu ac yn edrych am y gwerth gorau. Mae'n canolbwyntio ar gaffael nwyddau'n lleol a hyrwyddo hyn ac mae wedi nodi amryw o gyflenwyr lleol, ond bydd ond yn eu defnyddio pan fo hynny'n fasnachol hyfyw. Fodd bynnag, gan fod BLL yn fusnes dielw a gan mai'r gyflogres yw'r eitem gwariant fwyaf, bydd yr incwm a gynhrychir yn cael ei ddosbarthu'n lleol trwy gyflogau, ailfuddsoddiadau a'r gadwyn gyflenwi.

Mae amryw o bartneriaethau allweddol wedi cyfrannu at lwyddiant BLL. Y bartneriaeth fwyaf allweddol yw'r bartneriaeth gyda Phrifysgol Abertawe. Roedd y brifysgol wedi nodi

BLL fel partner cyflenwi ar gyfer y cais i Gyngor Abertawe i ddarparu Canolfan Chwaraeon Traeth a Dŵr 360 ar sail y gydnabyddiaeth bod BLL, gyda'i arbenigedd eang ym maes hamdden gweithredol, mewn sefyllfa well i sicrhau'r buddiannau dymunol ar gyfer y gymuned a'i myfyrwyr.

Mae bod yn fusnes dielw yn creu manteision mewn perthynas â gwaith partneriaeth. Mae sefydliadau eraill, yn enwedig yn y sector cyhoeddus, yn fwy parod i archwilio ac ymgysylltu â gweithgareddau ar y cyd gan eu bod yn gwybod nad yw'r elw'n mynd i gwmni preifat a bod yr holl arian sydd dros ben yn cael ei fuddsoddi yn ôl i mewn i'r economi leol.

Mae BLL yn cymhwyso disgyblaethau masnachol mewn perthynas â'i weithgareddau prynu ac yn edrych am y gwerth gorau. Mae'n canolbwyntio ar gaffael nwyddau'n lleol a hyrwyddo hyn ac mae wedi nodi amryw o gyflenwyr lleol, ond bydd ond yn eu defnyddio pan fo hynny'n fasnachol hyfyw.